
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 No. 3359

**Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad
(Athrofa Brifysol Ewropeaidd) (Cymru) 2009**

RHAN 3

DARPARU GWYBODAETH

Gwybodaeth

13. Rhaid i bob ceisydd a phob myfyriwr cymwys roi gwybod ar unwaith i Weinidogion Cymru a rhoi'r manylion iddynt os bydd unrhyw rai o'r canlynol yn digwydd—

- (a) ei fod yn tynnu'n ôl o'i gwrs, yn rhoi'r gorau iddo neu'n cael ei ddiarddel oddi arno;
- (b) ei fod yn trosglwyddo i gwrs arall yn yr Athrofa;
- (c) ei fod yn rhoi'r gorau i fod yn bresennol ar y cwrs ac nad yw'n bwriadu parhau ag ef am weddill y flwyddyn academiaidd neu nad yw'n cael caniatâd i barhau ag ef am weddill y flwyddyn academiaidd;
- (ch) ei fod yn absennol o'i gwrs am fwy na 60 o ddiwrnodau oherwydd salwch neu am unrhyw gyfnod am unrhyw reswm arall;
- (d) bod y mis ar gyfer dechrau'r cwrs neu ei gwblhau yn newid;
- (dd) bod ei gyfeiriad cartref neu ei gyfeiriad yn ystod y tymor yn newid.